# Abatacept, adalimumab, etanercept a tocilixumab i drin arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid

Rhagfyr 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Abatacept (Orencia), adalimumab (Humira), etanercept (Enbrel) a tocilizumab (RoActemra) fel triniaethau posibl ar gyfer pobl sydd ag arthritis polyarticwlaidd idiopathig ymhlith ieuenctid.

Argymhellir adalimumab ac etanercept fel triniaethau posibl ar gyfer pobl sydd ag arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid sy'n gysylltiedig ag enthesitis.

Argymhellir etanercept fel triniaeth bosibl ar gyfer pobl sydd ag arthritis soriatig idiopathig ymhlith ieuenctid.

### *Beth yw ystyr hyn?*

Os yw eich meddyg (neu feddyg eich plentyn) yn credu mai abatecept, adalimumab, etanercept neu tocilizumab yw'r driniaeth gywir i chi (neu'ch plentyn), dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai abatecept, adalimumab, etanercept a tocilizumab fod ar gael ar y GIG o fewn 3 mis yn dilyn cyhoeddi'r canllawiau.

Os nad ydych chi (neu eich plentyn) yn gymwys i gael y driniaeth a ddisgrifir uchod, dylech chi (neu eich plentyn) allu parhau i gymryd abatacept, adalimumab, etanercept neu tocilizumab nes y byddwch chi a'ch meddyg (neu feddyg eich plentyn) yn penderfynu ei bod yn iawn i chi roi'r gorau i'w gymryd.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellir abatacept, adalimumab, etanercept a tocilizumab oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau eu cost.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Mae arthritis yn achosi poen a llid yn y cymalau. Mae arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid yn fath o arthritis sy'n dechrau mewn plant o dan 16 mlwydd oed (ymhlith ieuenctid). Mae'r achos yn anhysbys. Mae arthritis sy'n gysylltiedig ag enthesitis yn fath o arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid sy'n effeithio ar dendonau lle maent yn cysylltu â'r esgyrn. Mae arthritis soriatig yn fath o arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid gyda llid yn y cymalau a'r cyflwr croen soriasis. Caiff ei ddisgrifio yn weithredol pan fydd symptomau croen neu gymalau yn ymddangos.

Mae Abatacept (Orencia), adalimumab (Humira), etanercept (Enbrel) a tocilizumab (RoActemra) yn helpu i leihau'r boen a'r chwyddo a achosir gan arthritis idiopathig ymhlith ieuenctid. Gallant arafu'r clefyd a helpu i atal niwed parhaol i'r cymalau.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chymorth

- Children’s Chronic Arthritis Association, 01905 745 595
- National Rheumatoid Arthritis Society, 0800 298 7650
- Versus Arthritis, 0800 520 0520

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1747-1